

Taflen Ffeithiau 11: Salwch Gweithiwr a Thâl Salwch Statudol

Os byddwch chi'n dewis cyflogi eich staff eich hun (Cymhorthydd Personol), efallai y bydd yna achlysuron pan fydd yn rhaid i chi dalu tâl salwch statudol (TSS) i'ch gweithwyr os nad ydynt yn gallu gweithio o achos salwch.

Bydd gan weithwyr hawl i dderbyn Tâl Salwch Statudol os ydynt yn bodloni'r amodau canlynol:

- Rhaid iddynt fod yn ennill o leiaf y terfyn enillion isaf ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a,
- Rhaid iddynt fod methu gweithio am o leiaf 4 diwrnod yn olynol oherwydd salwch, yn cynnwys penwythnosau a gwyliau cyhoeddus. (Caiff 3 diwrnod cyntaf salwch eu hystyried yn ('diwrnodau aros')

Dyma rywfaint o atebion i gwestiynau cyffredin allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Beth yw Tâl Salwch Statudol (TSS)?

TSS yw'r swm y mae'n rhaid i chi ei dalu yn ôl y gyfraith i weithiwr sydd wedi bod yn absennol oherwydd salwch sydd wedi gweld gostyngiad yn eu cyflog yn sgil hynny.

Faint yw'r Tâl Salwch Statudol?

Mae'r un gyfradd TSS wythnosol yn berthnasol i bob gweithiwr, sef £87.55 yr wythnos ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r swm y mae'n rhaid i chi ei dalu i weithiwr ar gyfer pob diwrnod nad ydynt yn gweithio oherwydd salwch (y gyfradd ddyddiol) yn dibynnu ar y nifer o 'ddiwrnodau cymwys' y maent wedi'u contractio i weithio bob wythnos.

Am faint y gellir talu TSS?

Y rhwymedigaeth uchaf i dalu TSS yw 28 wythnos mewn un cyfnod o salwch neu 'cyfnodau cysylltiedig' o salwch.

Beth y mae angen i mi i wneud os bydd fy Nghymhorthydd Personol i ffwrdd yn sâl?

I ddechrau, cysylltwch â Chyngor Sir y Fflint ac fe wnawn ni eich cyngori ynglŷn â beth y mae angen i chi ei wneud.

Beth ddylwn i ofyn i fy Nghymhorthydd Personol ei ddarparu os byddant yn sâl?

Gall eich gweithiwr ddarparu hunan-dystysgrif ar gyfer 7 diwrnod cyntaf eu salwch. Gallwch gael ffurflen safonol gan eich darparwr gwasanaeth cyflogau ar gyfer hyn. Ar ôl y cyfnod hwnnw, mae'n rhaid iddynt ddarparu nodyn swyddogol gan feddyg. Fe ddylech anfon y rhain i'ch darparwr gwasanaeth cyflogau.

Sut mae fy Nghymhorthydd Personol yn derbyn ei TSS?

Cysylltwch â'ch darparwr gwasanaeth cyflogau a dywedwch wrthynt beth yw'r dyddiadau y mae eich gweithiwr wedi bod yn sâl. Fe fyddant yn gwneud y didyniadau angenrheidiol ar gyfer yr oriau sydd heb eu gweithio ac yn ychwanegu'r TSS sy'n ddyledus iddynt.

Beth os ydw i'n talu TSS i un Cymhorthydd Personol ac yn talu cyflog i Gymhorthydd Personol arall tra mae'r llall yn sâl, ond does gen i ddim digon o arian yn fy nghyfrif Taliadau Uniongyrchol?

Yn y mwyafrif o achosion, fe fydd yna ddigon o arian yn eich cyfrif taliadau uniongyrchol i dalu pob cyflog. Serch hynny, os oes yna gyfnod hir o salwch lle telir TSS, neu os oes amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar eich gallu i dalu cyflogau, cysylltwch â Chyngor Sir y Fflint a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi.

Ydi taliadau TSS yn destun didyniadau Treth ac Yswiriant Gwladol?

Ydynt. Yn gyffredinol, fe dynnir taliadau treth ac yswiriant gwladol ohonynt; serch hynny os mai TSS yw'r unig daliad a dderbynnir yn ystod cyfnod o salwch, yna ni chaiff yr Yswiriant Gwladol ei dynnu.

Cofiwch, os nad ydych chi'n sicr, neu os oes gennych chi ymholiadau neu os byddwch chi angen cefnogaeth ychwanegol, cysylltwch â'r Cyngor i gael cyngor.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk